**Senedd Cymru | Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Welsh Parliament | Research Service**

# TGAU Astudiaethau Natur

Y Pwyllgor Deisebau | 17 Tachwedd 2020
Petitions Committee | 17 November 2020

**Cyfeirnod:** RS20/14409

**Rhif y ddeiseb**: P-05-1044

**Teitl y ddeiseb**: Sefydlu TGAU Astudiaethau Natur i helpu i baratoi cenedlaethau'r dyfodol i fynd i'r afael â'r bygythiadau sy'n wynebu natur

**Geiriad y ddeiseb:** Nid yw ein byd naturiol erioed wedi wynebu cymaint o heriau a bygythiadau o ganlyniad i waith dyn. Bellach, mae angen creu TGAU Astudiaethau Natur yng Nghymru yn fwy nag erioed o'r blaen. Rhaid inni roi'r sgiliau a'r wybodaeth i genedlaethau'r dyfodol, a fyddai'n eu galluogi i fynd i'r afael â llawer o'r materion byd-eang hyn.

Rhaid i ailymgysylltu â'r byd naturiol ddod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Gallai Cymru arwain y ffordd o ran paratoi ein plant gyda'r arfau sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ac argyfyngau difodiant rhywogaethau.

Cafodd yr alwad am TGAU Astudiaethau Natur ei harwain yn gyntaf gan Mary Colwell a oedd yn credu nad yw pobl ifanc yn y DU ar hyn o bryd yn ymgysylltu â natur ddigon a bod hyn yn effeithio ar gadwraeth a llesiant.

Roedd yr adroddiad eiconig ar Sefyllfa Byd Natur yn seinio rhybudd i bawb na allwn barhau i weithredu yn ôl yr arfer. Rhoddodd rybudd amlwg i ni fod y DU, ers 1970, wedi colli 60 y cant o'i bywyd gwyllt, a bod Prydain yn un o'r gwledydd mwyaf disbyddedig o ran natur yn y byd.

Rhaid inni addysgu pobl ifanc am fygythiadau byd-eang poblogaeth sy'n ehangu; defnyddio plaladdwyr a chwynladdwyr; llygredd tir, dŵr ac aer; yr

argyfwng hinsawdd; colli pridd; ffermio dwys yn erbyn ffermio organig; colli cynefin; rhywogaethau goresgynnol; rhywogaethau sydd mewn perygl o ddiflannu a cholli bioamrywiaeth; gorbysgota; plastigau untro; datgoedwigo a chymaint, cymaint mwy.

Rhaid inni addysgu pobl ifanc bod ein bywydau heddiw ac yfory yn mynd law yn llaw â sicrhau byd naturiol sy'n fywiog, yn doreithiog, ac yn iach.

# 1. Cwricwlwm a chymwysterau newydd

Yn amodol ar basio Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru), bydd y Cwricwlwm 3-16 oed newydd i Gymru yn cael ei gyflwyno ym mhob ysgol a gynhelir ac mewn lleoliadau meithrin a ariennir yn gyhoeddus o fis Medi 2022 yn raddol.

Cafodd y Bil ei gyflwyno i'r Senedd ar 6 Gorffennaf 2020 ac mae'n amlinellu pedwar diben y cwricwlwm newydd:

- Galluogi disgyblion a phlant i ddatblygu yn ddysgwyr galluog ac uchelgeisiol, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
- Galluogi disgyblion a phlant i ddatblygu yn gyfranwyr mentrus a chreadigol, sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith;
- Galluogi disgyblion a phlant i ddatblygu yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus i Gymru a'r byd;
- Galluogi disgyblion a phlant i ddatblygu yn unigolion iach a hyderus, sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o'r gymdeithas.

Mae'r rheoleiddiwr, Cymwysterau Cymru, yn ystyried ar hyn o bryd sut y bydd cymwysterau i bobl ifanc 16 oed yn cyd-fynd â gofynion y cwricwlwm newydd. Mae wedi argymell cadw TGAU. a diweddaru'r cynnwys a'r dull asesu ar gyfer TGAU unigol i ddiwallu anghenion y dyfodol.  Bydd cam nesaf ei ymgynghoriad yn ystyried y prif gymwysterau a ddylai fod ar gael i bobl ifanc 16 oed o 2025 ymlaen a'r egwyddorion dylunio ar gyfer TGAU yng Nghymru.  Bydd yn ymgynghori ar gynigion ar ddechrau 2021 a'i fwriad yw cadarnhau yn ddiweddarach yn 2021 y cymwysterau y bydd eu hangen.

# 2. Y sefyllfa yn Lloegr

Yn 2017, llwyddodd deiseb yn Nhŷ'r Cyffredin yn galw am gymhwyster TGAU Astudiaethau Natur i gasglu dros 10,000 o lofnodion. Ymateb Llywodraeth y DU oedd bod cyfleoedd yn bodoli eisoes yn y cwricwlwm ar gyfer astudiaethau natur a bod angen amser ar ysgolion i addasu i'r diwygiadau diweddar i gymwysterau. Dywedodd Llywodraeth y DU nad oedd unrhyw gynlluniau i gyflwyno pynciau TGAU newydd. Yn ddiweddarach, aeth trefnydd y ddeiseb honno at y bwrdd arholi, OCR, sydd ers hynny wedi dechrau datblygu cymhwyster TGAU mewn Astudiaethau Natur.

Rhwng mis Mehefin a mis Gorffennaf 2020, cynhaliodd OCR ymgynghoriad ar beth y dylai cymhwsyter TGAU Astudiaethau Natur ei gynnwys.  Mae angen cymeradwyaeth yr Adran Addysg ac Ofqual, y corff rheoleiddio yn Lloegr, ar gyfer unrhyw gymhwyster TGAU newydd.

Gall corff dyfarnu cydnabyddedig wneud cais i gael cymwysterau wedi'u cymeradwyo neu eu dynodi yng Nghymru. Rhaid i'r corff dyfarnu greu a chyflwyno cymhwyster ar gronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru.  Os yw corff dyfarnu yn cyflwyno cais i gymeradwyo cymhwyster sydd ar y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaeth, rhaid i Gymwysterau Cymru ystyried y cais hwnnw. Dim ond os ydynt yn bodloni'r meini prawf cymeradwyo a gyhoeddwyd y caiff cymwysterau ar y rhestr eu cymeradwyo. Bydd Cymwysterau Cymru yn ystyried cymwysterau nad ydynt ar y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaeth os oes meini prawf cymeradwyo wedi'u cyhoeddi. Fodd bynnag, rhoddir mwy o flaenoriaeth i gymeradwyo cymwysterau sydd ar y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaeth. Os yw corff dyfarnu cydnabyddedig yn cyflwyno cais i gymeradwyo cymhwyster nad yw ar y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaeth, dim ond os yw'r cymhwyster yn bodloni'r meini prawf cymeradwyo a gyhoeddwyd y caiff ei gymeradwyo.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.